Cyhoeddiadau Eglwysi Bro Enlli
Dydd Sul 17 Mawrth 2024

ARDAL WEINIDOGAETH BRO ENLLI MINISTRY AREA

† Pwllheli † Llannor † Llanbedrog † Llangian † Llanegan † Llanfaelrhys † Aberdaron

Annwyl Frodyr a Chwiorydd yn Nghrist,

Gobeithiaf eich bod i gyd yn cadw'n dda ac yn iach. Dymuniadau gorau am wellhad buan i bawb sy'n wael, a boed i Grist gysuro bob un sy'n unig neu'n galaru. Os oes unrhyw beth y gallaf ei wneud i helpu, neu os hoffech i mi weddïo drosoch neu'ch anwyliaid, yn fy ngweddïau personol neu yn ein gwasanaethau, peidiawch ag oedi cysylltu â mi.

Mae deugain niwrnod y grawys yn prysur fynd heibio ac mi fyddwn yng nghanol holl ddigwyddiadau cythryblus yr Wythnos Fawr cyn i ni droi. Mawr obeithiaf eich bod yn cael grawys bendithiol gan wneud y mwyaf o'r cyfnod yma i fyfyrio a gweddïo ar anghenion enbyd y byd o'n cwmpas, yn ogystal â'n hanghenion ysbrydol ein hunain. Rydym hefyd, wrth gwrs, yn disgwyl yn eiddgar am y gobaith sicr hwnnw a ddaw gyda'r bedd gwag a buddugoliaeth ein Harglwydd Iesu Grist ar ddydd y Pasg.

Yn dilyn dathlu Sul y Fam yr wythnos diwethaf a'r ysgafnhau traddodiadol ar ddisgybliaeth y grawys, mae'r naws yn newid eto wrth i'r Groes agosáu. Tymor y Dioddefaint yw'r enw ar y cyfnod hwn o'r grawys. Mewn rhai eglwysi, fe welwch fod pob croes neu ddarlun o Grist neu eiconau eraill wedi eu gorchuddio â llieiniau porffor, sy'n ychwanegu at ddwyster y tymor, ond hefyd o fod wedi eu dadorchuddio ar ddydd y Pasg, yn amlygu'r eglwys yn llawn gogoniant.

Gyda chymaint o ddioddef a rhyfela yn ein byd, cymaint o dlodi ar ein stepan drws, cymaint mewn angen am fwyd a'r pethau sylfaenol, heb sôn am yr angen am ddŵr glân ar filynnau o bobl y byd , mae'n rhaid i ni beidio ag anobeithio. Cofiwn fod Crist wedi cerdded y ffordd o'n blaenau ni, wedi bod yn ddigartref, yn sychedig, yn noeth, wedi ei guro a'i sarhau, a hyd yn oed wedi cwympo nid unwaith, ond teirgwaith dan bwysau aruthrol y groes. Eto, fe gododd gan gario'n pwysau ni i gyd i'r eithaf, cymaint oedd ei dosturi a'i gariad tuag atom, nes iddo farw er ein mwyn gan orchfygu angau ei hun a chodi eto y trydydd dydd.

Beth bynnag yw eich disgyblaeth neu'ch sylw wedi bod y grawys hwn, boed inni geisio efylychu cariad Crist gan fod yn wyneb tosturi i'r rheini sy'n simsanu o'n cwmpas. Nid peth hawdd yw hyn bob tro, ond cofiwn fod Iesu yno i roi nerth a hwb bach ymlaen i ni. Y cwbl y mae'n gofyn yn ôl gennym ni yw i fod yn ddisgyblion iddo ef. Fe adnabyddir ei ddisgyblion fel rhai sy'n addoli Duw, tyfu'r Eglwys ac yn caru'r byd.

Y Pasg yw uchel ŵyl yr Eglwys ac mae'n ddyletswydd ar bob Cristion i dderbyn y Cymun Bendigaid adeg y Pasg. Dylem hefyd fod gyda Iesu yn ystod y digwyddiadau sy'n coffáu ei farwolaeth er mwyn gwerthfawrogi ei Atgyfodiad yn iawn. Gelwir y cyfnod hwn y 'Tridiau Sanctaidd', sef o nos Iau Cablyd (diwrnod 1) i nos Wener, o nos Wener (diwrnod 2) i nos Sadwrn, ac o nos Sadwrn (diwrnod 3) i nos Sul. Yn y traddodiad Iddewig ac yn y calendr litwrgaidd, mae'r diwrnod yn dechrau yn union wedi iddi hi fachlud, sef y noson gynt i ni, a dyna pam mae rhai eglwysi yn dechrau eu dathliadau gyda Gwylnos y Pasg ar nos Sadwrn, sef dechrau'r trydydd dydd, fel y byddwn ni yn St Pedr, Pwllheli. Mewn eglwysi eraill, fe ddechreuir y dathliadau wrth iddi wawrio gyda chodiad yr haul fore Sul y Pasg. Rhywbeth y dylem ystyried ei wneud y flwyddyn nesaf ar y traeth efallai.

Felly, un dathliad hir yw'r Tridiau Sanctaidd o ddioddefaint ac atgyfodiad Crist. Mawr obeithiaf y gallwn oll ddod at ein gilydd ar gyfer y dyddiau sanctaidd hyn yn St Hywyn, St Pedrog a St Pedr wrth inni gyrraedd uchafbwynt y flwyddyn eglwysig gan dystio i'r byd o gariad, tosturi a gallu Duw.

Atgyfododd Crist. Atgyfododd yn wir. Alelwia!
Pasg hapus a dedwydd i chi i gyd,
Rhun.

Yr Wythnos i ddod

10.00am	Dydd Mawrth	Pwllhelii	Y Cymun Bendigaid
10.00am	Dydd Mercher	Llanbedrog	Y Cymun Bendigaid
10.30am	Dydd Iau	Aberdaron	Y Cymun Bendigaid

Dydd Sul 24 Mawrth—Sul y Blodau—Gwasanaeth Unedig Bro Enlli

10.30am Llanbedrog Y Cymun Bendigaid

Mi fydd y gwasanaeth yn dechrau yn y Neuadd ar gyfer bendithio'r croesau palmwydd cyn prosesu ymlaen i'r eglwys. Hwn fydd yr unig wasanaeth ym Mro Enlli.

Yr Wythnos Fawr

Dydd Llun:	11.30am	Cadeirlan Deiniol Sant, Bangor.	Cymun y Chrism.
Dydd Mawrth:	10.30am	Eglwys St Pedr, Pwllheli.	Y Cymun Bendigaid
Dydd Mercher	10.00am	Eglwys St Pedrog, Llanbedrog.	Y Cymun Bendigaid

Y Tridiau Sanctaidd

Dydd Iau Cablyd:	6.00pm	Eglwys St Hywyn, Aberdaron.	Offeren Y Swper Olaf.
Gwener y Groglith:	2.00pm	Eglwys St Pedrog, Llanbedrog.	Litwrgi Gwener y Groglith.
Sadwrn Sanctaidd:	7.00pm	Eglwys St Pedr, Pwllheli.	Gwylnos y Pasg.
	7.30pm	Eglwys St Hywyn, Aberdaron.	Gwasanaeth Tenebrae

Sul y Pasg

9.00am	Eglwys St Engan, Llanengan	Y Cymun Bendigaid
9.30am	Eglwys St Pedrog, Llanbedrog	Y Cymun Bendigaid
11.00am	Eglwys St Pedr, Pwllheli	Y Cymun Bendigaid a Chonffyrmasiwn
11.00am	Eglwys St Hywyn, Aberdaron	Y Cymun Bendigaid
2.00pm	Eglwys St Maelrhys, Llanfaelrhys	Yr Hwyrol Weddi
5.00pm	**Eglwys St Pedr, Pwllheli**	
	Oedfa Undebol CYTUN gydag Archesgob Cymru, Y Parchedicaf Andy John, yn pregethu. Byddai'n hyfryd eich gweld chi yno, a beth am ddod â ffrind!	

Cinio Grawys

Diolch i bawb am eich cefnogaeth i'r Ciniawau Grawys eto eleni. Mae wedi bod yn hyfryd dod at ein gilydd ar gyfer gweddi canol dydd a rhannu bwyd a chwmnïaeth, gan godi arian i Cymorth Cristnogol. Mi fydd y cinio olaf ddydd Llun,18 Mawrth, gydag eglwysi Llanengan a Llangian yn paratoi. Diolch o galon.

Gwasanaeth Trwyddedu y Parch Jane Finn

Bydd y Parchedig Jane Finn yn cael ei thrwyddedu'n Offeiriad Pererindod ac Offeiriad Cyswllt Bro Enlli ddydd Sul, 21 Ebrill, am 5.00pm yn Eglwys Hywyn Sant, Aberdaron. Dewch yn llu.

Cymun Cartref

Os gwyddoch am unrhyw un a fyddai'n dymuno derbyn y Cymun Bendigaid yn eu cartref oherwydd anhawster dod i'r eglwys, yn enwedig dros y Pasg, rhowch wybod i'r Ficer.

The Week ahead

10.00am	Tuesday	Pwllheli	Holy Eucharist
10.00am	Wednesday	Llanbedrog	Holy Eucharist
10.30am	Thursday	Aberdaron	Holy Eucharist

Sunday 24 March—Palm Sunday—Bro Enlli United Service

10.30am Llanbedrog Holy Eucharist

The service will start in the Hall for the blessing of the palm crosses before processing to the church. This will be the only service in Bro Enlli.

Holy Week

Monday:	11.30am	Saint Deiniol's Cathedral, Bangor.	Chrism Eucharist.
Tuesday:	10.30am	St Peter's Church, Pwllheli.	Holy Eucharist.
Wednesday:	10.00am	St Pedrog's Church, Llanbedrog.	Holy Eucharist.

The Sacred Triduum

Maundy Thursday:	6.00pm	St Hywyn's Church, Aberdaron.	Eucharist of the Last Supper.
Good Friday:	2.00pm	St Pedrog's Church, Llanbedrog.	The Good Friday Liturgy.
Holy Saturday:	7.00pm	St Peter's Church, Pwllheli.	Easter Vigil.
	7.30pm	St Hywyn's Church, Aberdaron.	Tenebrae Service

Easter Sunday

9.00am	St Engan, Llanengan	Holy Eucharist
9.30am	St Pedrog, Llanbedrog	Holy Eucharist
11.00am	St Peter, Pwllheli	Holy Eucharist & Confirmation
11.00am	St Hywyn, Aberdaron	Holy Eucharist
2.00pm	St Maelrhys, Llanfaelrhys	Evening Prayer
5.00pm	**St Peter's Church, Pwllheli**	
	CYTUN Churches Together service with the Archbishop of Wales, The Most Reverend Andy John preaching. It would be wonderful to see you there, and why not bring a friend!	

Lenten Lunches

Thank you to everyone for your support for the Lenten Lunches again this year. It has been wonderful to gather together for midday prayer, food and fellowship, raising money for Christian Aid. Llanengan and Llangian will be preparing our last Lent Luch on Monday, 18 March. Many thanks.

The Revd Jane Finn Licensing Service

The Reverend Jane Finn will be licensed as Pilgrim Priest and Bro Enlli Assosiate Priest on Sunday 21 April at 5.00pm in St Hywyn's Church, Aberdaron. All are welcome.

Home Communion

If you know of anyone who would appreciate receiving Holy Communion at home because they are unable to attend church, especially at Easter, please let the Vicar know.

BRO ENLLI CHURCH NOTICES
Sunday 17 March 2024

ARDAL WEINIDOGAETH BRO ENLLI MINISTRY AREA

† Pwllheli † Llannor † Llanbedrog † Llangian † Llanegan † Llanfaelrhys † Aberdaron

Dear Brothers and Sisters in Christ,

I hope you are all keeping well and healthy. Best wishes for a speedy recovery to all who are ill, and may Christ comfort all of you who are lonely or grieving. If there is anything I can do to help, or if you would like me to pray for you or your loved ones, in my personal prayers or in our services, please do get in touch.

The forty days of Lent are quickly passing, and soon enough we will be in the middle of all the turbulent events of Holy Week. I do hope that you're having a blessed lent, making the most of this period to reflect and pray for the dire needs of the world around us, as well as our own spiritual needs. We are also, of course, eagerly waiting for that sure hope that comes with the empty tomb and the victory of our Lord Jesus Christ on Easter day.

Following the celebration of Mothering Sunday last week and the traditional temporary lifting of the penitential discipline of Lent, the mood changes again as the Cross of Calvary becomes ever nearer. This period of Lent is known as Passiontide. In some churches, you will see all crosses or pictures of Christ and other icons covered with purple cloths, which add to the intensity of the season, but also that when they are unveiled on Easter day, the church is magnified in full glory.

With so much suffering and war in our world, so much poverty on our doorstep, so many in need of food and basic necessities, not to mention the need for clean water for millions of people in the world, we can easily be overwhelmed and feel helpless. However, we must remember that Christ has walked this way before us; he was homeless, thirsty, naked, beaten and insulted, and he even fell, not once, but three times under the tremendous weight of the cross. Yet, he got up again and again, determined to carry the weight of us all on his shoulders. Such was his compassion and love for us, that he died for our sake, and conquering death he rose again on the third day.

Whatever your discipline or focus has been this lent, may we try to imitate Christ's love by being the face of compassion for those who are faltering around us. This is not always easy, but we remember that Jesus is always there to give us strength and, now and then, a small shove in the right direction. All he asks back from us is to be his disciples, and disciples of mercy at that. His disciples are known as those who worship God, grow the Church and love the world.

Easter is the great high feast of the Church and it is the duty of all Christians to receive Holy Communion at Easter. We should also be with Jesus during the events that commemorate his death in order to properly appreciate his Resurrection. This period is called the 'Sacred Triduum', from Holy Thursday evening (day 1) to Friday evening, from Friday evening (day 2) to Saturday evening, and from Saturday evening (day 3) to Sunday evening. In the Jewish tradition and in the liturgical calendar, the day begins immediately after sunset, which is the night before for us, and that is why some churches begin their celebrations with the Easter Vigil on Saturday evening, which is the beginning of the third day, as we will be doing in St Peter's, Pwllheli. In other churches, the celebrations begin at dawn on Easter Sunday morning. Something we should consider doing next year, maybe on the beach.

Therefore, the Three Holy Days is one celebration of Christ's passion and resurrection. I do hope that we can all come together for the Sacred Triduum in St Hywyn, St Pedrog and St Peter's as we reach the climax of the church year, and give witness to the world of God's love, compassion and power.

Christ is risen. He is risen indeed. Alleluia!
A happy and blessed Easter to you all,
Rhun.